

**PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R
CARTREF I'R YSGOL.**

DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2024

PRESENNOL Cyngorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

G. Davies A. Evans

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
E. M. Jones, Swyddog Mynediad Eithriedig
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 1 (Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) - Neuadd y
Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.12 yb**

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cyngorydd	Rhif yr Eitem	Y Math o Fuddiant
A Evans	5 – Ystyried apêl gan yr ymgeisydd D.T. yn erbyn penderfyniad yr awdurdod i beidio â darparu cludiant ysgol am ddim	Roedd wedi cyfarfod â'r apelydd o'r blaen ynglŷn â mynediad i'r ysgol uwchradd lle'r oedd hi hefyd wedi sôn am apêl cludiant sydd ar waith. Cadarnhaodd nad oedd yn trafod yr apêl gyda hi

3. COFNODION

3.1. 5 CHWEFROR 2024 - 2:00 YP

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.

3.2. 5 CHWEFROR 2024 - 2:10 YP

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3.3. 5 CHWEFROR 2024 - 2:20 YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.

3.4. 5 CHWEFROR 2024 - 2:40 YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD D.T. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

(NODER: Roedd y Cynghorydd Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a phleidleisio arni)

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i D.T i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD bod yr apêl a gyflwynwyd gan D.T. am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf